# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 21-08 (p1) : 24 Medi 2008**

## Mesur Prentisiaethau Drafft Senedd y DU

### Cyflwyniad

1. Rwyf i'n croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth ar y Mesur Prentisiaethau Drafft sydd wedi'i gyhoeddi ar y cyd gan yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau a'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Er mai ar gyfer Lloegr yn unig y mae'r Mesur fel y mae'n sefyll wedi'i ddrafftio, y bwriad yw y bydd darpariaethau'r Mesur yn cael eu cynnwys ym mhedwaredd sesiwn y Mesur Dysgu a Sgiliau, ac ar y cam hwnnw mae'n bosibl y gellid cynnwys cyfeiriadau a diwygiadau'n ymwneud â Chymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu cefndir y Mesur, y trefniadau cyfredol sy'n weithredol ar draws Cymru a Lloegr, ein strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant 14-19 a phrentisiaethau yng Nghymru a goblygiadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig i'r trefniadau hyn.

### Cefndir

2. Rhaglenni dysgu wedi'u lleoli gyda chyflogwyr yw prentisiaethau sy'n cynnwys gweithio a hyfforddi gyda chyflogwr, gan weithio hefyd at gymwysterau drwy ddarparwr dysgu. Ar hyn o bryd ceir dwy lefel o Brentisiaeth yng Nghymru:

Prentisiaeth Fodern Sylfaenol (Prentisiaethau yn Lloegr): sy'n gweithio at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar Lefel 2, cymwysterau Sgiliau Allweddol ac yn rhan fwyaf o achosion, tystysgrif dechnegol berthnasol.

Prentisiaeth Fodern (Prentisiaeth Uwch yn Lloegr): sy'n gweithio at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar Lefel 3, cymwysterau Sgiliau Allweddol ac yn rhan fwyaf o achosion, tystysgrif dechnegol berthnasol.

3. Sefydlodd Modern Apprenticeships: The Way to Work ("Adroddiad Cassel's") dair nodwedd yr ystyrid eu bod yn diffinio Prentisiaethau fel ffurf benodol o ddatblygiad personol:

mae cyflogwr yn cytuno i hyfforddi person, gan ddefnyddio arferion, cyfarpar a phersonél ei fenter i wneud hynny;

ceir cymysgedd o ddysgu yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith; ac

mae cwblhau prentisiaeth yn arwain at gydnabyddiaeth gyhoeddus fod y prentis wedi cyflawni hyfedredd mewn crefft, proffesiwn neu alwedigaeth.

4. Nid yw gweithrediad y Rhaglen Brentisiaeth yn dibynnu ar awdurdod statudol penodol ond mae'n seiliedig ar bwerau cyllido cyffredinol a pherthnasoedd cytundebol. Sefydlwyd y Rhaglen Prentisiaeth Fodern wreiddiol ym 1994 dan bwerau cyffredinol y Gweinidog Gwladol dan adran 2 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. Mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae modd eu hymarfer yn gydredol gan y Gweinidog Gwladol a Gweinidogion Cymru.

5. Yng Nghymru caiff y rhaglen brentisiaeth ei chyllido drwy gontractau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith. Yn Lloegr, y corff ariannu yw Cyngor Dysgu a Sgiliau Lloegr (LSC).

6. Ceir tua 180 o Brentisiaethau mewn gwahanol yrfaoedd (a adwaenir fel Fframweithiau Prentisiaeth) a ddatblygwyd dan gyfarwyddyd cyflogwyr i sicrhau eu bod yn darparu i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyflogwyr. Yn eu hanfod, mae'r Fframweithiau'n feysydd llafur lefel uchel ar gyfer Prentisiaeth mewn gyrfa benodol. Ar hyn o bryd mae'r safonau ar gyfer datblygu'r fframweithiau hyn wedi'u gosod mewn Glasbrint Prentisiaeth sydd wedi'i gytuno ar y cyd gan y gweinyddiaethau yng Nghymru a Lloegr. Caiff fframweithiau prentisiaeth eu llunio gan Gynghorau Sgiliau Sector neu gyrff sector yn erbyn yr egwyddorion a osodwyd yn y Glasbrint ac yna cânt eu cymeradwyo ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan Grwp Cymeradwyo dan nawdd Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU.

### Cynigion y Mesur Prentisiaeth

7. Mae'r cynigion yn y Mesur Prentisiaeth wedi'u cynllunio i gefnogi polisi Llywodraeth y DU i sicrhau fod cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant yn orfodol hyd at ddeunaw oed yn Lloegr yn unig. Ar hyn o bryd dan ddarpariaethau Mesur Dysgu a Sgiliau 2000 mae'n ofynnol i'r Cyngor Dysgu a Sgiliau (a Llywodraeth Cynulliad Cymru) sicrhau eu bod yn darparu cyfleusterau 'priodol' ar gyfer addysgu a hyfforddi pobl o 16 oed hyd at 19 oed. Mae'r cyfleusterau yn 'briodol' os oes digon ohonynt a'u bod o ansawdd digonol i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc. Mae'r cynigion yn y Mesur Prentisiaeth yn mynd yn bellach drwy bennu y dylai'r LSC sicrhau darpariaeth benodol ar gyfer prentisiaethau i'r holl rai 16-18 oed sy'n dymuno dilyn y llwybr hwn. Mae'r Mesur Drafft hefyd yn darparu sail statudol i'r rhaglen brentisiaeth.

8. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer:

swyddogaeth statudol i'w gosod ar y Gweinidog Gwladol i gymeradwyo'r elfennau craidd a ddylai fod yn orfodol ym mhob fframwaith Prentisiaeth (manyleb safonau Prentisiaeth, a adwaenir ar hyn o bryd fel y 'glasbrint');

cynnig y cyfle i sefydliadau, megis y Cynghorau Sgiliau Sector a chyflogwyr i gyflwyno Fframweithiau Prentisiaeth mewn ffurf drafft i

bersonau awdurdodedig ac i'r Gweinidog Gwladol i'w cyhoeddi os ydynt yn cydymffurfio â'r 'glasbrint';

bod y Gweinidog Gwladol yn pennu'r model o gytundebau Prentisiaeth y dylid ymgymryd â hwy rhwng cyflogwyr a Phrentisiaid;

sefydlu gwasanaeth cenedlaethol yn Lloegr i gydweddu cyfleoedd Prentisiaeth er mwyn cysylltu darpar Brentisiaid â darpar gyflogwyr.

sicrhau digon o lefydd prentisiaeth addas – prentisiaeth ar gyfer pob person ifanc 16-18 oed sydd â'r cymwysterau priodol

## Llwybrau Dysgu 14 – 19

9. Yng Nghymru, rydym yn parhau i ddilyn polisi o annog cyfranogaeth, drwy gynnig dewisiadau dysgu deniadol a chefnogaeth i ddysgwyr yn yr ystod oedran 16-18 – mae tanategiad deddfwriaethol i'r ymagwedd hon yn cael ei cheisio drwy'r Mesur Dysgu a Sgiliau.

10. Amcan Llwybrau Dysgu 14-19 yw trawsnewid opsiynau a chyfleoedd pobl ifanc drwy ehangu'r dewis a'r hyblygrwydd sydd ar gael i ddysgwyr. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau Llwybrau Dysgu sydd wedi'u teilwra'n unigol ac sy'n diwallu anghenion y dysgwyr, gan gynnwys y cymorth sydd ei angen arnynt i aros mewn dysgu a chyflawni eu potensial. Y chwe elfen allweddol yn y Llwybrau Dysgu yw:

Llwybr Dysgu Unigol

Dewis a Hyblygrwydd Ehangach (dewislenni opsiwn)

Y Craidd Dysgu

Anogwr Dysgu

Cymorth Personol

Cyngor ac Arweiniad Gyrfa

## Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008

11. Bydd y darpariaethau a geisir yn y Mesur yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith cyfreithiol fydd yn adlewyrchu'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn darparu'r dull ar gyfer datblygu'r fframwaith cyfreithiol hwnnw wrth i bolisi ddatblygu. Prif bwrpas y Mesur yw creu hawl i ddysgwyr 14-19 oed yng Nghymru ddewis dilyn cwrs astudio mewn maes cwricwlwm lleol.

Bydd y Mesur hwn yn darparu sail statudol ar gyfer hybu cydweithio rhwng gwahanol leoliadau dysgu, fydd yn cynnig cyfle i bobl ifanc gael ystod eang o ddewisiadau, gan eu helpu i wireddu eu dyheadau a chyfrannu at ddyfodol yr economi Cymreig. Bydd y Mesur hefyd yn galluogi sefydlu system addysg a hyfforddi yng Nghymru lle mae myfyrwyr yn gallu cymysgu dulliau academaidd a galwedigaethol o ddysgu i roi ystod eang o sgiliau a chymwysterau fydd yn gallu diwallu gofynion y gweithlu yng Nghymru yn y dyfodol.

## Prentisiaethau yng Nghymru

12.  Rydym ni'n dymuno cryfhau'r rhaglen brentisiaeth yng Nghymru i sicrhau ei bod yn parhau yn llwybr hyfyw i bobl ifanc o fewn y dewisiadau dysgu 14-19. Eisoes mae gennym raglen brentisiaeth bob oed lwyddiannus iawn yng Nghymru. Mae tua 25,000 o ddysgwyr yng Nghymru yn hyfforddi ar Brentisiaeth Sylfaenol neu Fodern bob blwyddyn. Mae'r ffigurau yn awgrymu bod y gyfran o'r boblogaeth oedran gwaith oedd ar raglenni Prentisiaeth Fodern yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2007 ddwywaith yn fwy na'r gyfran oedd ar Brentisiaethau Uwch yn Lloegr ac mae'r gyfran o'r boblogaeth oedran gwaith sy'n dilyn y Brentisiaeth Fodern Sylfaenol yng Nghymru hefyd yn uwch na'r nifer sy'n dilyn y rhaglen Brentisiaeth yn Lloegr.

13. Yn 2006 aethom ati i sefydlu cynllun gwella ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ac mae'r gweithredu sydd wedi deillio o hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a gwell cyfraddau cyflawni. Mae cyfraddau llwyddiant cyffredinol y fframwaith prentisiaeth erbyn hyn wedi cyflawni targed Llywodraeth y Cynulliad o 50%.  Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ein cynigion i adeiladu ar hyn yn ein strategaeth sgiliau a chyflogaeth a'r cynllun gweithredu "Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru".

14. Er ein bod ni'n rhannu uchelgais ein cydweithwyr yn Lloegr i weld ein holl bobl ifanc hyd at 18 oed yn ymgymryd â gweithgaredd dysgu, mae ein hymagwedd yn wahanol oherwydd rydym ni'n credu mai'r ffordd orau i ddenu pobl ifanc a chyflogwyr yw drwy annog a chefnogi yn hytrach na gorfodi. Nid yw'n bosibl cyflawni Prentisiaeth heb gynnwys elfen sylweddol o ddysgu  seiliedig ar waith. Er mwyn cynnal ansawdd ein rhaglen brentisiaeth byddem yn dymuno gweld yr holl brentisiaid yn cael statws cyflogedig sydd wedi'i hadeiladu'n gadarn ar egwyddorion angen a galw cyflogwyr.

15. Ein hymagwedd ni felly yw cael cyrsiau a chwricwlwm perthnasol, diddorol a chefnogaeth drwy Lwybrau Dysgu 14-19 er mwyn sicrhau fod pobl ifanc i gyd yn dymuno aros mewn ac annog cyflogwyr i chwarae rhan lawn yn y rhaglen brentisiaeth ac agor mwy o gyfleoedd i'r rhai sy'n 16-18 oed. Ein bwriad yw hwyluso mwy o gyfleoedd i bobl ifanc drwy fentrau megis ein Llwybrau Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n cyfuno dysgu yn yr ysgol â dysgu ymarferol mewn amgylchedd gwaith. Ein nod yw creu gwell cyfleoedd dilyniant drwy alinio'r rhaglen Brentisiaeth â Bagloriaeth Cymru, a datblygu prentisiaethau lefel uwch. Byddwn hefyd yn creu mwy o gyfleoedd o fewn cwmnïau bach a chanolig a'r cyflogwyr hynny nad ydynt yn draddodiadol wedi bod â rhan mewn prentisiaethau drwy ddatblygu dulliau cyflenwi arloesol a hyblyg.

16. Mae Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru yn amlinellu ein hymagwedd strategol at y canlynol:

creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at brentisiaethau;

gofyn i'r Cynghorau Sgiliau Sector ddiffinio eu gofynion mynediad yn glir;

gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddarparu mynediad rhwyddach at gyfleoedd prentisiaeth drwy wasanaeth cydweddu llefydd gwag;

alinio prentisiaethau gyda Bagloriaeth Cymru;

cynyddu'r gyfran o brentisiaid sy'n cwblhau eu fframwaith cyflawn, gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill fel rhan o gynllun gwella 2006 ar gyfer dysgu seiliedig ar waith;

adolygu'r glasbrint prentisiaethau, sy'n cynnig arweiniad i'r Cynghorau Sgiliau Sector ar gynnwys eu fframweithiau prentisiaeth;

datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau lefel uwch; ac

annog mwy o fentrau bach a chanolig i gymryd rhan mewn rhaglenni prentisiaeth.

### Goblygiadau'r Ddeddfwriaeth Arfaethedig i Brentisiaethau yng Nghymru

17. Rydym yn dymuno cadw, cyhyd â bod hynny'n bosibl, y cyd-drefniadau cyfredol ar gyfer safonau a chymeradwyaeth i brentisiaethau yng Nghymru a Lloegr er mwyn osgoi trafferthion i gyflogwyr ac unigolion os oes gwahanol safonau a fframweithiau yn gweithredu ar draws y ffin. Rydym yn gweithio gyda'r asiantaethau yn Lloegr i sicrhau, lle bo'n bosibl, y gallwn gytuno ar gyd-safonau.

18. Rydym yn cytuno â'r egwyddor y dylid rhoi statws statudol i'r Rhaglen Brentisiaeth, er mwyn creu llinellau atebolrwydd clir a chyflwyno gwell sefydlogrwydd. Mae'r Prif Weinidog felly wedi ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth y DU i ddweud y byddem yn dymuno gweld darpariaethau yn y Mesur Dysgu a Sgiliau a fyddai'n:

caniatáu ar gyfer cydweithio rhwng y Gweinidogion Cymreig a'r Gweinidog Gwladol mewn perthynas â manyleb safonau'r brentisiaeth;

cynnwys pwerau creu gorchmynion i'r Gweinidogion Cymreig er mwyn gweithredu manyleb safonau'r brentisiaeth yng Nghymru;

caniatáu ar gyfer pwerau creu gorchmynion i Weinidogion Cymru awdurdodi corff i gyflwyno fframweithiau prentisiaeth;

caniatáu naill ai bod Gweinidogion Cymru eu hunain neu fod Gweinidogion Cymru yn gallu awdurdodi corff i gyflwyno tystysgrifau prentisiaeth a chodi ffioedd; a

caniatáu i'r cynnig i egluro ystyr a statws cytundebau prentisiaeth a sefydlir mewn perthynas â fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig, fod yn gymwys yng Nghymru

**John Griffiths AC, Medi 2008**
**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**